**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

10 Mai 2024

Annwyl Lywydd

Adolygu Rheol Sefydlog 29

Rwy'n ysgrifennu atoch parthed eich llythyr i'm rhagflaenydd, dyddiedig 20 Mawrth 2024, pan wnaethoch gadarnhau y bydd Rheol Sefydlog 29.1 yn cael ei hystyried fel rhan o waith arfaethedig y Pwyllgor Busnes mewn perthynas â'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mawrth 7 Mai 2024, bu fy Mhwyllgor yn trafod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cyfiawnder Troseddol. Fel rhan o'r trafodaethau hynny, gwnaethom nodi eto fod gwahanol brofion yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan y Senedd, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, wrth benderfynu a oes angen cydsyniad y Senedd ar ddarpariaethau Bil. Mae'r sefyllfa hon yn destun pryder i'r Pwyllgor.

Mae'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol cychwynnol, a osodwyd ar 29 Ionawr 2024, yn cynnwys y datganiad a ganlyn: "*...mae'r darpariaethau hyn y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac nid oes angen gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â hwy*". Yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a'r memorandwm atodol dilynol, y safbwynt a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru oedd bod angen cydsyniad yn sgil y ffaith bod y darpariaethau yn rhoi swyddogaethau a gadwyd yn ôl i awdurdodau datganoledig yng Nghymru. Fodd bynnag, nid dyma sy'n ofynnol gan y 'prawf diben' a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1, sy'n darparu bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fo Bil y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru:

(i) at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu

(ii) sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Rydym yn pryderu y bydd y dull sy'n cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru yn arwain at ddryswch o ran yr hyn sy'n sail i'r cais am gydsyniad y Senedd. Mewn achosion lle mae'n amlwg nad yw'r 'prawf diben' sydd wedi'i nodi yn Rheol Sefydlog 29.1 wedi'i fodloni, nid yw'n glir pam fod y broses cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei defnyddio.

Rydym yn cydnabod bod y gwaith o adolygu'r Rheol Sefydlog dan sylw wedi dechrau, ond rydym yn dymuno pwysleisio'r angen i'r Pwyllgor Busnes adolygu Rheol Sefydlog 29.1, ac i'w diwygio os oes angen, er mwyn sicrhau ei bod yn addas i'r diben.

Er mwyn galluogi fy Mhwyllgor i fodloni'r terfyn amser a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer cyflwyno adroddiad, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 17 Mai 2024, gan nodi eich barn ar y materion a godwyd gennym.

Er gwybodaeth, rydym yn debygol o ysgrifennu atoch eto mewn perthynas â Rheol Sefydlog 29, wedi inni gyhoeddi ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio).

Yn gywir,



Sarah Murphy
Cadeirydd